# Newid Hinsawdd Mesur eich Ôl Troed Carbon

## CEFNDIR

Yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru 2025, bu'r myfyrwyr yn dysgu am newid hinsawdd a'r ffordd y mae hynny'n berthnasol i wahanol agweddau ar ein bywydau, gan gynnwys y pethau y gallwn eu gwneud i leihau allyriadau a rhoi hwb i fyd natur.

O safbwynt Newid Hinsawdd, maent wedi dysgu:

- Beth yw nwy tŷ gwydr
- O ble mae nwyon tŷ gwydr yn dod
- Yr effaith maent yn ei chael ar yr atmosffer a'r byd o'n cwmpas.

Mae nwyon tŷ gwydr yn deillio o weithgareddau beunyddiol fel gyrru, gwresogi ein cartrefi, defnyddio offer trydanol, creu gwastraff a chynhyrchu nwyddau. I fynd i'r afael â newid hinsawdd, mae pobl yn gweithredu'n lleol ac o amgylch y byd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac anogir pawb i wneud beth bynnag y gallant i helpu.

Y cam cyntaf yw deall eich ôl troed carbon. Lawrlwythwch ap *My Footprint* gan y WWF ac atebwch rai o'r cwestiynau i weld beth yw eich ôl troed carbon ac o ble mae eich allyriadau'n dod.

Mae'r ap yn ddefnyddiol iawn ac mae'n cynnwys heriau syml i leihau allyriadau carbon a helpu'r amgylchedd. Mae digonedd o adnoddau eraill ar gael i'ch helpu i ddysgu mwy am y byd a chyfrannu at ei wneud yn lle gwell.

Yn yr *App Store* neu *Google Play*, chwiliwch am "WWF My Footprint" a lawrlwythwch yr ap. Unwaith y byddwch chi'n deall eich ôl troed carbon, defnyddiwch yr ap i weld beth allwch chi ei wneud i fod yn fwy cynaliadwy.



## DOLENNI AC ADNODDAU

Pan fyddwch chi wedi ymrwymo i weithredu, boed hynny drwy gamau bach neu fawr, rhowch wybod i Dîm Newid Hinsawdd Cyngor Sir y Fflint drwy wneud addewid heddiw.

Wedi hynny, ewch ati i bori drwy'r wybodaeth ar dudalen Newid Hinsawdd Cyngor Sir y Fflint a gwefan Gweithredu ar Hinsawdd Cymru.

Dyma ddiffiniadau o dermau cyffredin ym maes yr hinsawdd.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Nwy Tŷ Gwydr | Nwy sy'n medru dal ac allyrru'r gwres isgoch sy'n dod o'r ddaear wrth adlewyrchu gwres yr haul. |
| Carbon Deuocsid | Y nwy tŷ gwydr sy'n bennaf gyfrifol am gynhesu byd-eang o waith dynol, a hynny o ganlyniad i losgi tanwydd ffosil. |
| Newid Hinsawdd | Newid hirdymor yn nhymheredd cyfartalog y Ddaear a'r tywydd. |
| Cytundeb Hinsawdd Paris | Cytundeb byd-eang rhwng 195 o bartïon dan nawdd y Cenhedloedd Unedig i gyfyngu ar gynhesu byd-eang. Cymeradwywyd y cytundeb a'i lofnodi ym Mharis yn 2015. |
| Sero Net | Sefyllfa ble mae swm y nwyon tŷ gwydr a gaiff eu hallyrru i'r atmosffer yn hafal i swm y nwyon tŷ gwydr a gaiff eu gwaredu gan fyd natur a thrwy ddal a storio carbon. |
| Lefelau Cyn-ddiwydiannol | Defnyddir y term hwn wrth gymharu allyriadau a thymheredd yn y gorffennol er mwyn mesur y newid. Mae 'cyn-ddiwydiannol' fel arfer yn sôn am ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. |